

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol gynhaliwyd 2 Medi 2019 am 7.30yh  
yn Hen Ysgol y Ferwig.**

## **Presennol:**

Cyng. Auriol Williams (*Cadeirydd*)

Cyng. Lloyd Jenkins (*Is-Gadeirydd*)

Cyng. Lyn Jones

Cyng. Peter Williams

Cyng. Llinos Price

Cyng. Matthew Morgan

Cyng. Dilwyn Jenkins

Cyng. Clive Davies (Aelod Lleol y Cyngor Sir)

Mrs Melanie Davies (*Clerc*)

- 1. Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Auriol Williams, bawb i gyfarfod mis Medi wedi'r haf. Dymunodd yn dda i'r Cyng. Matthew Morgan ar ei fenter newydd ar Ystad Ddiwydiannol Pentood.

- 2. Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Y Cyng. Des Davies ac Eurig Lloyd. Carys Owens, Porth y Gymuned

**3. Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blaenorol**

Cynigiwyd gan y Cyng. Matthew Morgan ac eiliwyd gan y Cyng. Lloyd Jenkins bod cofnodion mis Gorffennaf yn gywir.

- 4. Datgelu buddiannau personol:** Y Cyng. Llinos Price a'r Cyng. Clive Davies mewn perthynas ag Ysgol Gymunedol Penparc

**5. Materion yn codi:**

- (a) **Bocsys Papurau'r Cyngor:** Trafodwyd y bocsys papurau sydd yn nwyo Mrs Hildreth Owen. Cytunwyd ei bod hi'n bwysig cadw'r cofnodion i gyd. Clerc i holi am ba hyd y mae angen cadw cofnodion a phapurau. Cytunwyd hefyd bod angen gweld beth sydd ynddynt a dod ag un bocs erbyn y cyfarfod nesaf cyn bwrw ati i edrych a phenderfynu ar y gweddill.

- (b) **ROSPA:** Cae Gwyrdd, Penparc. Mae Mr John Morris wedi bod yn gwneud gwaith yn y cae hwn i wella'r cyflwr. Angen gweld a oes grantiau ar gael gan y Gist Gymunedol am arwyneb newydd i ambell ardal o'r cae chwarae. Y Cyng. Peter Williams i archwilio'r arwyneb a'r Clerc i holi'r Gist Gymunedol.

- (c) **Sedd wag am Gynghorydd:** Trafodwyd enw Mrs Delyth Phillips oedd wedi dod i law am y sedd wag. Cynigiwyd gan y Cyng. Llinos Price ei bod hi'n cael ei chyfethol ac eiliwyd hyn gan y Cyng. Dilwyn Jenkins.

- (d) **Ysgol Gymunedol Penparc:** Mae angen gwneud tipyn o waith yn yr ysgol o ran saerniæth, gwres canolog, peintio a chreu ardal dawel (gweler y ceisiadau am gymorth ariannol isod). Llythyr i fynd at y Cyngor Sir i fynegi pryder am wres canolog ac felly iechyd a lles y disgylion a'r staff.

**6. Ceisiadau am Gymorth Ariannol**

I'w penderfynu ym mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996.

**Ysgol Gymunedol Penparc**

O dan y cwricwlwm newydd, mae angen ardal dawel i blant er mwyn helpu gydag ymddygiad. Gan fod angen arian ar yr ysgol ar fyrder, cytunodd y Cyngor i roi cyfraniad o £300.

Cynigiwyd gan y Cyng. Lyn Jones, eiliwyd gan y Cyng. Lloyd Jenkins.

**7. Cynllunio:**

Anfonwyd y sylwadau uchod ymlaen ar 6 Awst

Rhif y Cais	Cyfeiriad a Bwriad	Sylwadau'r Cyngor
A190428	<b>Hawthorn Grange, Penparc, Aberteifi</b> Codi estyniad.	Cymeradwyo
A190419	<b>Glaneri, Y Ferwig, Aberteifi</b> Newid defnydd ysgubor i greu ystafell astudio, ystafell	Cymeradwyo

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

	wely gydag addasiadau i'r ystafell amlbwrrpas bresennol a gwaith cysylltiedig.	
A190466	<b>Gorwel Fôr, Gwbert, Aberteifi</b> Amrywio amod 1 caniatâd cynllunio A180506 – Cynlluniau sydd wedi'u cymeradwyo. Clerc wedi holi'r Cyngor ynghylch y cladin allanol – aros am ymateb	Cymeradwyo
A190431	<b>OC Davies MG, Penyparc, Aberteifi</b> Arddangos arwyddion	Cymeradwyo
A190416	<b>Garth, Tremain, Aberteifi</b> Codi estyniad	Caniatâd wedi'i roi. Dim angen trafod
A190404	<b>Tan y Fron, Y Ferwig, Aberteifi</b> Codi garej domestig	Penderfyniad wedi'i gyhoeddi

Anfonwyd y sylwadau uchod ymlaen wedi'r cyfarfod

## 8. Materion Ariannol

### Biliau wedi eu talu:

Cyflog y Clerc (Gorffennaf 2019)	101791	£308.97
Costau'r Clerc (Gorffennaf 2019)	101792	£51.30
Cyllid a Thollau EM: Treth Incwm y Clerc (Gorffennaf 2019)	101793	£77.00
CFfl Penyparc (Glanhau Ystafell Berkley)	101794	£225.00
ROSPA Play Safety (Archwilio Caearu Chwarae)	101795	£172.80
E. L. Jones a'i Fab Cyf (Amrywiol)	101796	£237.60
Telemat (Tâl am barth ferwig.org a gwesteio e-bost)	101797	£72.00
Y Gambo (hysbysebu sedd wag Cyngorydd)	101798	£9.00
Cyflog y Clerc (Awst 2019)	101799	£308.97
Costau'r Clerc (Awst, 2019)	101800	£39.00
Cyllid a Thollau EM: Treth Incwm y Clerc (Awst 2019)	101801	£77.00
John Morris (cynnal a chadw)	101802	£772.80
Ysgol Gymunedol Penparc	101803	£300.00

Cynigiwyd gan y Cyng. Llinos Price ac eiliwyd gan y Cyng. Dilwyn Jenkins bod y biliau uchod yn cael eu talu.

### Materion ariannol eraill

**Derbyniadau:** Yr ail daliad o'r Praesept am y flwyddyn 2019-20 = £7,000.00

**HSBC:** Mandad banc wedi'i sortio ynghyd â chyfrif y banc wedi'i adolygu.

**Grant Thornton (Archwilydd Allanol Cymru) (gweler gohebiaeth rhif 23)**

## 9. Gohebiaeth:

12	Comisiynydd Heddlu a Throseredd Dyfed Powys	Copïau o Adroddiad Blynnyddol 2018-19 i'w dosbarthu	Nodwyd. Trafodwyd troseddu yn yr ardal ac nid oedd gan neb bryderon mawr.
13	Cyngor Sir Ceredigion (Adran Cyllid a Chaffael)	Ail daliad y praecept am y flwyddyn ariannol 2019-20 (£7,000)	Nodwyd
14	Carys Owens, Porth y Gymuned	E-bost yn esbonio bod y prosiect yn mynd trwy broses ymgynghori	Nodwyd
15	Dŵr Cymru	Ymateb am y problemau ym Mhenyparc	Nodwyd. Trafodwyd problem arall yn ymwneud â dŵr. Gweler adroddiad y Cyng. Clive Davies, 11(d).

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

			Rhifau ffôn i'w rhoi yn yr Hysbysfyrddau
16	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	Ymateb i'r gŵyn am Ganolfan Iechyd Aberteifi	Trafodwyd yr angen i anfon llythyr arall gan fod yr ymateb yn anfoddhaol.
17	Eluned Morgan AC Canolbarth a Gorllewin Cymru	Llythyr yn cyflwyno'i chylchlythyr diweddaraf	Nodwyd
18	Cyngor Sir Ceredigion (Rheolwr Corfforaethol Gwasanaethau Prifffyrdd)	Llythyr yn esbonio System Bwrcasu ar gyfer Gwasanaethau Clirio Eira ac ati – Hysbyseb i'w rhoi yn y wasg leol	Nodwyd
19	Mrs Delyth Phillips	Llythyr cais am sedd wag am gyngħorydd.	Nodwyd
20	Ysgol Gymunedol Penyparc	Llythyr yn gofyn am grant	Nodwyd
21	Capel y Bedyddwyr Penyparc	Gwahoddiad i ddathlu 250 mlynedd ers i'r capel gael ei adeiladu ac i ailagoriad swyddogol y capel	Nodwyd
22	Proludic	Gwybodaeth hyrwyddo am gynhyrchion caeau chwarae	Nodwyd
23	Grant Thornton (Archwilydd Cyffredinol Cymru)	Adroddiad Blynnyddol y Cyfrifon am 2018-19. Mae dystysgrif o Gyfrifon Ariannol y Cyngor am y flwyddyn 2018-19 wedi ei dderbyn ac wedi ei arwyddo gan yr Archwilydd Allanol ar 23 Awst 2019. Mae'r daflen "Hysbysiad o Gwblhau'r Archwiliad" wedi ei osod yn yr hysbysfyrddau am 14 diwrnod yn olynol o 2 Medi.	Cyngorir y Cyngor fel a ganlyn gan yr Archwilydd Allanol: "Contracts to comply with Standing Orders and Financial Regulations to avoid unlawful expenditure. Staff costs to be correctly stated as per criteria. Terms of reference to be adopted for each committee."

## 10. Materion Eraill:

- (a) **Meinciau yng Ngwbert:** Tair mainc ochr draw Gwesty'r Cliff wedi'u gosod yno yn 2000 angen eu farneisio, yn ogystal â 3 wrth yr olyfan. Clerc i drefnu bod hyn yn cael ei wneud.
- (b) **Problemau Sat Nav:** Yn dilyn y problemau gyda cherbydau'n cyrraedd Gwesty'r Cliff, gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r Gwasanaethau Technegol yn y Cyngor Sir mewn perthynas â'r posiblwydd o osod arwydd. Angen anfon llythyr gydag enghreifftiau.
- (c) **Bryn Teg:** Cafwyd cynllun o'r gwaith arfaethedig. Clerc i ofyn eto am ddyfynbris.
- (d) **Diffibriliwr:** Gweler adroddiad y Cyng. Clive Davies isod.
- (e) **Enwi ffyrdd:** Wedi cael ymateb gan Steffan Jones yn nodi bod sawl peth i'w hystyried cyn gallu enwi ffyrdd, fel ymgynghori â'r bobl sy'n byw ar y ffyrdd, mater newid codau post a'r costau sydd ynghlwm â gosod arwyddion newydd. Penderfynwyd gadael y mater am y tro.
- (f) **Golygfan Gwbert:** Ceubyllau wedi'u llenwi yn dilyn cwynion.
- (g) **Mainc ym mhentref Penyparc:** Cytunwyd anfon llythyr o ddiolch i'r preswylwyr lleol sydd wedi bod yn plannu blodau mewn potiau wrth ymhl y fainc ar y groesffordd.

## 11. Adroddiad y Cyngħorydd Sir, y Cyng. Clive Davies:

- (a) **Carnival Penyparc:** Mynychodd y carnival yn ddiweddar lle mwynhaodd beirniadu'r cystadlaethau niferus.
- (b) **Blaenpistyll:** Rhoddodd wybod y bydd yr heol yn cau ar gyfer BT. Dim cwynion wedi dod i law.
- (c) **Torri cloddiau:** Mae sawl cwyn wedi dod i law am waith gwael wrth dorri cloddiau.
- (d) **Dŵr Cymru:** Cafwyd wybod bod y gronfa'n gollwng ym Mhenyparc. Mae Dŵr Cymru'n bwriadu trwsio'r broblem ond bydd hyn yn tarfu ar gyflenwad y pentref am gyfnod.

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

- (e) **Hen Ysgol y Ferwig:** Cais Cynllunio. Roedd yn disgwyl ateb gan Arwyn o'r Cyngor ynghylch ei e-bost ar brynu'r safle. Dywedodd fod Catrin Newbold o'r Adran Gynllunio'n gobeithio cael arian wrth y Llywodraeth ym mis Medi.
- (f) **Parcio yn Patch:** Mae pobl wedi dechrau parcio ar y bryn. Mae'r heddlu'n ychwanegu swyddogion patrolio ac wedi cael amserlen y llanw. Dywedodd fod angen i'r Cyngor Cymuned a'r Clwb Cychod gydweithio ar hyn. Y gobaith yw cael y cyngor i gwrdd â'r clwb cychod ynglŷn â pharcio a datblygu ardal Patch.
- (g) **Achubwyr Bywyd Mwnt:** Siaradwyd gyda Lee Fisher. Mae'r Cyngor Sir yn talu am achubwr i fod ar 6 traeth. Mae'n bosibl na fydd achubwyr ar gael ar draeth Mwnt ar adegau. Polisi'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yw os ydy'r llif lle mae'r tonnau'n cyfarfod yn wael, gallan nhw gau'r traeth. Bydd Lee yn gweithio ar y polisi dros y gaeaf gyda Paul Boland o'r Ymddiriedolaeth i ddod o hyd i ffordd ymlaen i ddatrys hyn.
- (h) **Diffibriliwr ym Mwnt:** Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn fodlon cyfrannu at hwn. Mae preswylydd lleol wedi bod yn holi am gyfraniadau tuag ato. Bydd yr arian yno ac mae'n bosibl y bydd angen i'r cyngor gyfrannu ato. Cyng. Clive Davies i holi faint mae'r Ymddiriedolaeth yn barod i roi. Clerc i siarad â'r preswylydd ynghylch faint sydd wedi'i gasglu.
- (i) **Pencampwr Digidol:** Rhoddodd y cynghorydd wybod iddo gael teitl newydd fel Pencampwr Digidol y Cyngor a'i fod yn gadeirydd ar Drwyddedu. Cafodd ei longyfarch gan y Cadeirydd.
- (j) **Speedwatch:** Cafwyd wybod bod pethau'n symud yn eu blaen gyda'r datblygiadau ym Mhenyparc.
- (k) **Cynllun Datblygu Lleol:** Dyddiad cau ar gyfer CDL1 2019-2033 ar 12 Medi. Tynnwyd sylw at hwn ac at fap y Cyngor ar gyfer yr ardal.
- (l) **Place Plans:** Cyfarfod ar 9 Medi gyda'r 6 lle arall.

## 12. Dyddiad y cyfarfod nesaf 7 Hydref (YB)

**Cyfarfodydd y Cyngor am 2019:** 4 Tachwedd (F) 2 Rhagfyr (YB)

Dynoda: F = Hen Ysgol y Ferwig     YB = Ystafell Berkley     CB = Cyfarfod Blynnyddol

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

**Minutes of the Ordinary Meeting held on 2 September, 2019 at 7.30pm  
at Yr Hen Ysgol, Ferwig.**

## **Present**

Cllr. Auriol Williams (*Chairperson*)

Cllr. Lyn Jones

Cllr. Llinos Price

Cllr. Dilwyn Jenkins

Cllr. Clive Davies (Local member of the County Council) Mrs Melanie Davies (*Clerk*)

Cllr. Lloyd Jenkins (*Vice Chair*)

Cllr. Peter Williams

Cllr. Matthew Morgan

**1. Chairperson's welcome:** The Chairperson, Cllr Auriol Williams, welcomed everyone to the September meeting after the Summer recess. She wished Cllr Matthew Morgan well on his new venture on Pentood Industrial Estate.

**2. Apologies for absence:** Cllrs Des Davies and Eurig Lloyd, and Carys Owens, Porth y Gymuned.

## **3. Minutes of the previous meeting**

It was proposed by Cllr Matthew Morgan and seconded by Cllr Lloyd Jenkins that the minutes of the July meeting be recorded as correct.

**4. Declaration of personal interests:** Cllrs. Llinos Price, Cllr. Clive Davies regarding Ysgol Gymunedol Penparc

## **5. Matters arising:**

- Council's Boxes of Paperwork:** The boxes in the hands of Mrs. Hildreth Owen were discussed. It was agreed that it's important to keep all minutes. Clerk will ask how long minutes and papers need to be kept. It was also agreed to have a look at the contents by bringing one box to the next meeting prior to looking at the remainder.
- ROSPA:** Cae Gwyrdd, Penyparc. Mr John Morris has undertaken improvements to the condition of the playing field. We need to see whether the Community Chest has grants available for a new surface in some areas of the playing field. Cllr Peter Williams will inspect the surface and the Clerk will make enquiries to the Community Chest.
- Councillor vacancy:** A letter that had been received from Mrs Delyth Phillips was discussed for the vacancy. Cllr. Llinos Price proposed that she be co-opted, this was seconded by Cllr. Dilwyn Jenkins.
- Ysgol Gymunedol Penparc:** Substantial work needs to be done to the school in terms of structure, central heating, painting and creating a quiet area (please see requests for financial support below). A letter shall be sent to the County Council expressing concern about central heating, and therefore the health and welfare of pupils and staff.

## **6. Requests for financial support.**

To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.

Ysgol Gymunedol Penparc

In accordance with the new curriculum, a quiet area for children needs to be provided which will assist with behaviour. As the school needs money urgently, the Council agreed to give a contribution of £300.

Proposed by Cllr. Lyn Jones, seconded by Cllr. Lloyd Jenkins

## **7. Planning:**

<i>Application No.</i>	<i>Address and purpose</i>	<i>Council's observations.</i>
A190428	<b>Hawthorn Grange, Penyparc, Cardigan</b> Build an extension.	Approve
A190419	<b>Glaneri, Y Ferwig, Cardigan</b> Change the use of a barn to create a study, bedroom with adaptations to the current utility room and associated works.	Approve
A190466	<b>Gorwel Fôr, Gwbert, Cardigan</b> Vary condition 1 of planning application	Approve

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

	A180506 – Plans that have been approved. Clerk asked the Council regarding the external cladding – waiting for a response.	
A190431	<b>OC Davies MG, Penyparc, Cardigan</b> Erect signs	Approve
A190416	<b>Garth, Tremain</b> Build an extension	Permission granted. No need to discuss.
A190404	<b>Tan y Fron, Y Ferwig, Cardigan</b> Build a domestic garage	Decision issued.

Above comments were submitted following the meeting

## 8. Financial Matters.

### Bills paid:

Clerk's salary (July 2019)	101791	£308.97
Clerk's expenses (July 2019)	101792	£51.30
HMRC: Clerk's Income Tax (July 2019)	101793	£77.00
Penyparc YFC (Cleaning of Ystafell Berkley)	101794	£225.00
ROSPA Play Safety (Play Areas Inspection)	101795	£172.80
E.L. Jones a'i Fab Cyf (Various)	101796	£237.60
Telemat (Payment for ferwig.org portal and e-mail hosting)	101797	£72.00
Y Gambo (advertisement for Councillor vacancy)	101798	£9.00
Clerk's salary (August 2019)	101799	£308.97
Clerk's expenses (August 2019)	101800	£39.00
HMRC: Clerk's Income Tax (August 2019)	101801	£77.00
John Morris (general maintenance of area)	101802	£772.80
Ysgol Gymunedol Penparc	101803	£300.00

It was proposed by Cllr Llinos Price and seconded by Cllr Dilwyn Jenkins that the above bills be paid.

### Other financial matters

**Receipts:** Second instalment of the precept for 2019-20 = £7,000.00

**HSBC:** Bank mandate has been sorted along with the bank account review

**Grant Thornton (External Auditor)** (see Correspondence no. 23).

## 9. Correspondence:

12	Dyfed Powys Police and Crime Commissioner	Copies of Annual Report 2018-19 for distribution	Noted. Crime in the area was discussed with no major concerns.
13	Ceredigion County Council (Finance Dept.)	Second payment of the precept for 2019-20 (£7,000)	Noted
14	Carys Owens, Porth y Gymuned	Email explaining that the project is going through a consultation process.	Noted
15	Welsh Water	Response regarding the problems at Penyparc	Noted. Another water problem was discussed. Please refer to Cllr. Clive Davies' report, 11 (d). Contact numbers to be displayed on noticeboards.
16	Hywel Dda University Health Board	Response to the complaint about Cardigan Health Centre	It was discussed that another letter needs to be sent as the response was unsatisfactory.
17	Eluned Morgan AM	Letter presenting her recent newsletter	Noted
18	Ceredigion County Council	Letter explaining the Purchasing System for the Snow Clearing Services etc –	Noted

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

	(Highways Services Corporate Manager)	Advertisement to be placed in the local press	
19	Mrs Delyth Phillips	Application letter for councillor vacancy.	Noted. Ref 5(c)
20	Ysgol Gymunedol Penparc	Request for Financial Assistance	Noted
21	Baptist Chapel, Penyparc	Invitation to celebrate 250 years since the chapel was built and to the chapel's official reopening.	Noted
22	Proludic	Promotional information about play area equipment	Noted
23	Grant Thornton (Auditor General for Wales)	Annual Return 2018-19. The certified Annual Return for Y Ferwig Community Council for the year 2018-19 has been signed by the External Auditor on 23 August 2019. The "Notice of Conclusion of Audit" document has been posted on notice boards for 14 days from 2 September.	The Council was advised as follows: "Contracts to comply with Standing Orders and Financial Regulations to avoid unlawful expenditure. Staff costs to be correctly stated as per criteria. Terms of reference to be adopted for each committee."

## 10. Other Matters:

- (a) **Gwbert Benches:** The three benches on the other side of the Cliff Hotel which were placed there in 2000 need varnishing, as well as 3 at the viewpoint. Clerk to organize this.
- (b) **Sat Nav Issues:** Following problems with vehicles getting to the Cliff Hotel, the Clerk was asked to contact the Technical Services at the Council in relation to the possibility of erecting a sign. A letter with examples of issues needs to be sent.
- (c) **Bryn Teg:** A plan of the proposed work was seen. Clerk to ask again for a quotation.
- (d) **Defibrillator:** Please refer to Cllr. Clive Davies' report below – 11(h).
- (e) **Naming of roads:** Steffan Jones has responded noting that there are several things to consider before being able to name roads, such as consulting people living on those roads, the issue of changing postcodes and the costs involved with erecting new signs. It was decided to leave the matter for the time being.
- (f) **Gwbert Viewpoint:** Potholes have been filled following complaints.
- (g) **Bench in Penyparc village:** It was agreed that a letter should be sent thanking the local residents who have been planting flowers in pots next to the bench on the crossroads.

## 11. County Councillor's Report – Cllr Clive Davies:

- (a) **Penyparc Carnival:** He recently attended the carnival where he enjoyed judging the numerous competitions.
- (b) **Blaenpistyll:** He informed that the road would be closing for work by BT. No complaints had been received.
- (c) **Hedge cutting:** Several complaints were received regarding bad hedge cutting.
- (d) **Welsh Water:** He had been informed that the reservoir in Penyparc had a leak. Welsh Water intend to fix the problem but it will interrupt Penyparc's supply for a period of time.
- (e) **Hen Ysgol y Ferwig:** Planning Application. Awaiting a reply from Arwyn from the Council regarding his email on the site's purchase. He stated that Catrin Newbold from the Planning Department was hoping to have the money from the Government in September.
- (f) **Parking at Patch:** People have started parking on the hill. The police are adding patrol officers who have received tidal timetables. He said that the Community Council and the Boating Club need to co-operate on this. It is hoped that the council will meet with the boating club regarding parking and the development of the Patch area.

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

- (g) **Mwnt Lifeguards:** The councillor informed that he had spoken to Lee Fisher. The County Council pays for a lifeguard to be present on 6 beaches. It's possible that there will be no lifeguard on Mwnt at times. The National Trust's policy states that if the rip is bad, they could close the beach. Lee will work with Paul Boland from the Trust on the policy over winter to find a way forward to resolve this.
- (h) **Mwnt Defibrillator:** The National Trust is willing to contribute towards this. A local resident has been asking for contributions. The money will be in place and the Council will possibly need to contribute towards it. Cllr Clive Davies will ask how much the Trust is willing to give. Clerk will speak to the local resident asking how much has been raised.
- (i) **Digital Champion:** Cllr. Clive Davies informed the Council that he has received the new title of the County Council's Digital Champion and is now also Chairperson of Licensing. He was congratulated by Cllr. Auriol Williams.
- (j) **Speedwatch:** Members were informed that things are moving forward in Penyparc.
- (k) **Local Development Plan:** Closing date for the 2019-2033 LDP is 12 September. Cllr Clive Davies drew attention to this and to the Council's map for the area. Future suggestions can be proposed by zooming in to the areas and providing comments on the website.
- (l) **Place Plans:** A meeting will be held on 9 September with the other 6 places.

**12. Date of next meeting:** 7 October 2019 at Ystafell Berkley

**Dates of Council Meetings for 2019:**      4 November (F)    2 December (YB)

*Denotes:*    F = Ferwig Old School.      YB = Ystafell Berkley.      AGM = Annual General Meeting